CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**29.07.21**
**7 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod ZOOM*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** JAJ (Cadeirydd); DW; RJ; DP; JOJ; AR; EO;<br>**Ymddiheuriadau:** IW; DM; BJ; GW; TAJ;DL<br>**Mynychu:** SWR ;<br>Ymunodd TAJ ar ZOOM ond o ganlyniad i broblem technegol fe gollwyd y cyswllt. |
| | **Cyflwyniad gan Gyfeillion Lein Amlwch**<br>Croesawyd Carys Hughes ac Ifor Humphries i'r cyfarfod a chafwyd diweddariad ganddynt am y datblygiadau hyd yma gyda'r Lein. Nodwyd y canlynol:-<br>• Bwriad y grŵp Cyfeillion yw edrych ar ôl yr holl wirfoddolwyr sy'n gweithio i glirio/adnewyddu'r lein o Gaerwen i Amlwch<br>• Rheilffordd Ganolog Môn bellach wedi derbyn les 99 mlynedd ar y lein o Gaerwen i Amlwch. Bydd hyn yn hwyluso'r broses i ymgeisio am grantiau fel y Loteri Fawr ac yn y blaen. Ar yn o bryd nid oes arian yng nghoffrau'r Cyfeillion.<br>• Bydd Network Rail yn rheoleiddio unrhyw waith adfer i sicrhau addasrwydd ar gyfer rhedeg trenau<br>• Bydd archwiliad gan Netwrok Rail ar y clirio o Langefni i Llan ym mhen 2 flynedd<br>• Network Rail sydd gyda'r hawl terfynol gydag unrhyw benderfyniad ar ddefnydd y lein ond nid ydynt yn argymell 'mix use' ar hyn o bryd. Er hyny nododd CH ei bod mewn trafodaethau gyda Menter Môn i adnabod ambell ardal posib lle gall hyn ddigwydd yn ddiogel. |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | • Nodwyd bod trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda'r tirfeddianwyr ynglŷn â thrwsio ffiniau ar hyd y ffordd.<br>• Cyfeillion yn gofyn am y posibilrwydd o ddefnyddio stafell yn y Stesion a/neu ardal i storio cyfarpar er mwyn hwyluso'r clirio o'r Llan i Amlwch.<br><br>Diolchwyd i CH a IH am fynychu'r cyfarfod ac fe'u sicrhawyd bod Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd wedi bod, ac yn parhau i fod, yn gefnogol i weithgaredd a datblygiadau positif i'r lein.  Gadawodd CH a IH y cyfarfod.<br><br>Yn dilyn trafodaeth bellach cytunwyd a'r canlynol:-<br>• Parhau gyda'r trafodaethau gyda Grŵp Cyfeillion Lein Amlwch gan geisio cynlluniau mwy pendant ganddynt.<br>• Clerc i gael trafodaeth gyda Carolyn Owen Tenant Caffi'r Stesion (a'r ystafelloedd cyfarfod)  i'w diweddaru ar y drafodaeth uchod a cheisio ei barn a'i bwriadon gyda'r safle i'r dyfodol.<br>• Nodi ein bodlonrwydd iddynt osod storfa ar safle'r Stesion i gadw cyfarpar er mwyn hwyluso'r gwaith adfer a chynnal a chadw<br>• Aelodau i ystyried unrhyw bosibiliadau pellach a thrafod ym mis Medi gan obeithio bydd presenoldeb llawn.<br>• Clerc i gyflwyno canlyniad ein trafodaeth i Carys Hughes |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd JAJ ddiddordeb mewn unrhyw drafodaethau am gytundeb gyda'r CPD Llan. |
| **3** | **Cofnodion 24.06.21**<br>a) Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 24 Mehefin  2021 fel rhai cywir ( DW/EO)<br>b) Materion yn codi<br>• <u>Cyfarfod gyda Rhys Jones</u> - Clerc i anfon infois at Menter Mon am Uned 2 – Ebrill – Awst.  RJ i drefnu symud Menter Mon o Uned 2 i Uned 1 a llunio cytundeb newydd ar bris y farchnad. Creu cytundeb newyd arwahan i Wayne Feehily am Uned 2 i ddechrau yn dilyn y symud.  RJ i wneud arolwg o Unedau 4/5/a 6 gyda golwg i godi'r rhent i bris y farchnad gyfredol a chreu |


Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn  LL71 8EG**
Ffôn:  01248  470383

| | |
|---|---|
| | cytundebau newydd. Cytundebau CPD a Lawn Fowlio - angen i'r aelodau benderfynu manylder y cytundebau, nodwyd ein bod yn talu biliau trydan a dŵr yn gyfredol. Bydd hefyd angen copi o'u polisïau yswiriant - trafod ymhellach ym mis Medi Awgrymodd RJ adolygiad o bolisi yswiriant CCLlan are i holl eiddo. Clerc i weithredu gyda Gareth Owen yn y man cyntaf. Cytundeb y Caffi - nodwyd nad yw'r rhent o £48 am y flwyddyn gyntaf wedi ei dalu. Mae'r cytundeb yn nodi codiad yn y rhent yn unol â throsiant y Caffi. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu â Carolyn gan nodi bodlonrwydd y Cyngor i dderbyn £48 am y ddwy flwyddyn gyntaf yng ngoleuni'r ffaith bod y cyfnod wedi ei rwystro gan COVID 19. Cytunwyd hefyd, ar gyngor Rhys J, i adolygu'r cytundeb ym mis Ionawr 2022.<br><br>· Cytundeb Torri Gwair - adroddodd y Clerc bod y contractwr wedi cael problemau torri ardaloedd mewn pryd oherwydd diffyg staff o ganlyniad i ofynion hunan ynysu COVID 19. Cytunwyd i drefnu amserlen ar gyfer y tymor nesa fydd yn rhoi rhagamcan o amser torri gyda phythefnos o ras naill du i'r dyddiadau.<br><br>· Oriau Glan Menai - adroddodd y Clerc ei bod wedi trafod pryderon yr aelodau gyda'r Rheolwr Practis. Nodwyd y canlynol - newid oriau o ganlyniad i bwysau COVID 19 ar staffio - ond dim lleihau; Coed y Glyn ar agor tan 6pm pob nos; y practis yn dilyn canllawiau 'Dispensing Doctors' ar gyfer rhagnodi hyn yn sicrhau cyflwyno prescriptiwn mewn dull mwyaf diogel.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn 29.7.21 |
| 4 | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>**RJ** - Yn dilyn hadu Cae Gofeb cynigiodd yr ardal ger Unedau Tan y Foel fel man arall lle gellir ei wella a'i dacluso. Cytunwyd i gadw'r ardal yma dan ystyriaeth.<br><br>**JOJ** - awgrymodd gosod llinellau melyn ar y troad i mewn i Stryd Tudor. Cytunodd y Clerc i ychwanegu at y rhestr.<br><br>**DP** - cyfeiriodd at gyflymdra cynyddol tractorau mawr drwy'r pentref. Clerc i son wrth yr Heddlu eto.<br><br>**DW** - Cyfeiriodd at chwyn yn tyfu trwy waliau yma ac acw drwy'r pentref ac yn rhwystro gweledEdd i yrwyr a thrafferth i gerddwyr y palmentydd. Clerc i gysylltu â CSYM yn nodi - tros ffordd i Erw'r Delyn; Ger Y Felin; Rhes Califfornia a Phont y Stesion.<br><br>**JAJ** - nododd bod y fan fawr werdd yn y Stesion ar ddau 'jack' - hyn yn berygl. Clerc i gysylltu â'r perchennog rhag blaen. |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | Nifer o dyllau ffyrdd drwy'r pentref. Cytunodd RJ i holi am gymorth Ciang Cymunedol CSYM<br><br>Ffordd drwy Bachau ger Dolfor yn wael ac yn berygl i feicwyr. Clerc i gysylltu â CSYM<br><br>Nododd nad yw'r gwaith ger Sarn Fadog wedi ei gwblhau - Clerc i gysylltu â CSYM<br><br>Cyfeiriodd at fainc wedi torri yn Glan Menai - GW bellach wedi ei thrwsio.<br><br>Cyfeiriodd at y bwriad o gynnal cyfarfod mis Medi wyneb yn wyneb os bydd y cyfyngiadau presennol wedi eu codi. |
| **5** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Mehefin** **£**<br>HMRC – PAYE chwarter cyntaf 169.80<br><br>**Biliau cyfredol**:<br>Dragon Fire – gwirio cyfarpar tan yn y CPD a<br>Lawnt Fowlio 136.68<br>Wybone – bocsus dal bagiau dal baw ci 588.83<br>CSYM – Rhent Cae Aml Bwrpas 117.30<br>CPD Llan – noddi hysbysfwrdd 50.00 |
| **7.** | **Materion Cynllunio**<br><br>**Cais: HHP/2021/171 – Dolfor Llannerchymedd –** dim gwrthwynebiad<br><br>**Cais: FPL/2021/125 - Hen Felin Llannerchymedd –** dim gwrthwynebiad |
| **8** | **Unrhyw Fater Arall –** dim i law<br><br>• Pwyllgor Safonnau – rhannwyd wybodaeth gan y Pwyllgor Safonnau ar ebost eisoes. Cydnabuwyd derbyn a deall y cynnwys.<br><br>• Fferm Solar Alaw Môn – nodwyd bod angen ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 4 Awst 2021. Cytunwyd i gyflwyno'r sylwadau canlynol:-<br><br>'*Rydym yn diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ac yn cydnabod ymdrechion Enso Energy Ltd i geisio barn trigolion lleol. Mae Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd yn dymuno* |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | *cyflwyno'r sylwadau canlynol:-*<br>• *Pryder am ddiffyg cyfleon gwaith tymor hir i'r boblogaeth leol*<br>• *Pryder am golli tir amaethyddol ar gyfer cenedlaethau i'r dyfodol*<br>• *Angen eglurder ar unrhyw fuddion ddaw i'r cymunedau o fewn ardal Alaw Môn hyn i gynnwys sut byddant yn cael eu gweinyddu a'u dyrannu.*<br>• *Trafnidiaeth – mae'n debyg bydd llawer o ddefnydd gan beiriannu sylweddol ar hyd y ffordd o Lannerchymedd i Trefor (B5112) wrth sefydlu'r fferm. Mae defnydd y ffordd hon eisoes yn creu cryn bryder i'r Cyngor Cymdeithas gyda nifer o drigolion yr ardal yn bryderus am or-yrru ac am gyflwr y ffordd i ymdopi a'r drafnidiaeth drom gyfredol. Rydym eioes wedi nodi ein pryderon gyda Chyngor Sir Ynys Môn. Tybed oes gan Enso Energy Ltd unrhyw fwriad i fuddsoddi mewn gwella'r ffordd i ymdopi a'r drafnidiaeth ychwanegol?*<br><br>*Mae 4 cais am ffermydd solar yn yr arfaeth yn gyfredol a hyny o fewn adral gyfyngedig ar yr Ynys – ni wyddom faint yn rhagor ddaw i law. Teg yw nodi'r pryder bydd Ynys Môn yn gweld effeithiau negyddol yr holl ffermydd solar mawr hyn heb brofi unrhyw fuddion.'*<br><br>Nododd DP bod Mr Eddie Williams Wenllys a Mrs Katie Jones Siop y Printars ddim mewn iechyd da, anfonwyd cofion gorau yr aelodau atynt.<br><br>*Daeth y cyfarfod i ben am 8.50* |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383